

## SYPYN CYFEILIOG, fl. 1340-90, bardd

**Enw:** Sypyn Cyfeiliog  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth  
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Ei gân enwocaf yw'r 'awdl unnos' i Ddafydd ap Cadwaladr o Fachelldref, ger Church Stoke, sy'n gorffen a'r llinellau adnabyddus, ' Dyred pan fynnych, cymer a welych, a gwedi delych, tra fynnych trig.' Dywedir yn y llawysgrifau mai awdl fyrfyr ydyw, y gorfodwyd y bardd i'w chanu am ei groeso pan drodd i mewn i dŷ Dafydd am loches o'r storm, a chael bod gwledd ymlaen yno. Fe'i canwyd cyn 1400 gan ei bod i'w chael yn ' Llyfr Coch Hergest,' o dan un o'r amrywiol enwau a ddodir ar y bardd hwn, sef Dafydd Bach ap Madog Wladaidd. Dywedir yn y llawysgrifau hefyd mai'r un bardd yw Cnepyn Gwerthrynion a Bach Buddugre. Ond y mae'n sicr i fardd gryn ysbaid o'i flaen ddwyn yr enw **Cnepyn Gwerthrynion**, oblegid fe sonnir amdano gan **Wilym Ddu o Arfon**. Awgryma **Ifor Williams** mai 'cymysgu tri bardd bach a wnaethpwyd,' sef y **Cnepyn**, **Bach Buddugre**, a **Sypyn Cyfeiliog**. Y mae gan y Sypyn gywydd moliant i **Harri Salbri** (bu farw 1400) a'i wraig Annes Kwrtes (h.y. Courtois), a hefyd y ddau gywydd o'i waith a roddir yn *lolo Goch ac Eraill* bardd hwn gan **Gruffudd Llwyd** (c. 1385) yn ' Cywydd y Cwest,' a hefyd yn ' Araith lolo Goch ' (gweler *Areithiau Pros*, 12-7).

### Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

### Ffynonellau

'*Llyfr Coch Hergest*' (*Jesus College MS. cxi*)

Archifau LIGC: **NLW MS 6496C** (247b)

*Llawysgrif Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 2* (356b)

Archifau LIGC: **Cwrtmawr MS 467B** (32)

*Llawysgrif Wynn 1* (210)

etc.

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau lolo Goch ac Eraill, 1350â€“1450* (Bangor 1925)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: *Dafydd Bach ap Madog Wladaidd*

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: **4579147270512135700007**

Wikidata: **Q5208375**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA



Lloyd, D. M., (1953). SYPYN CYFEILIOG, fl. 1340-90, bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SYPY-CYF-1340>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government